**Panel Adolygu Arbenigol: Cyfarfod 7**
**Cofnodion y cyfarfod**

**Dyddiad:** Dydd Mercher, 29 Mawrth 2023

**<u>Yn bresennol:</u>**
**Cadeirydd:** Yr Athro Suzanne Fitzpatrick (Prifysgol Heriot-Watt).

**Aelodau:** Matt Downie (Crisis), Liz Davies CB (Siambrau Garden Court), Yr Athro Peter Mackie (Prifysgol Caerdydd), Jennie Bibbings (Shelter Cymru), Katie Dalton (Cymorth Cymru), Jim McKirdle (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru), Angela Bowen (Cyngor Sir Gâr), Emily James (Cyngor Sir Penfro), Clarissa Corbisiero (Cartrefi Cymunedol Cymru), Nazia Azad (Tai Pawb), Hannah Fisher (Llywodraeth Cymru), Huw Charles (Llywodraeth Cymru).

**Yn bresennol:** Jordan Brewer (Crisis), Abi Renshaw (Crisis), Jasmine Harris (Crisis), Ashleigh Stevens (Cyngor Conwy), Zoe Sutton (Llywodraeth Cymru).

**Ymddiheuriadau:** Sam Parry (Cyngor Conwy), Debbie Thomas (Crisis).

## 1. Croeso, cyflwyniadau, cofnodion a phapurau ychwanegol

Croesawodd y Cadeirydd gydweithwyr newydd ac aelodau o'r Panel i seithfed cyfarfod y Panel Adolygu Arbenigol. Diolchwyd i'r Panel am baratoi a darllen y papurau cyn y cyfarfod.

*Cofnodion cyfarfod 4.1:* Derbyniwyd y cofnodion.
*Cofnodion cyfarfod 6:* Derbyniwyd y cofnodion.

Diolchodd JB i'r Panel am gyflwyno pwyntiau ar gyfer ystyriaeth gyfreithiol. Erbyn hyn mae gan LD restr gryno o eitemau y mae'r panel wedi gofyn am nodyn cyngor arnynt. Ceisiadau eraill i'w hanfon at JB.

| Aelod(au) y Panel | Cam Gweithredu | Amserlen |
|---|---|---|
| Abi Renshaw | Holi pryd mae aelodau'r Panel ar gael a threfnu dyddiad ar gyfer cyfarfod atodol 5.1 ar lety dros dro ac addasrwydd. | Ar unwaith |
| Pawb | Anfon unrhyw feysydd lle mae angen i LD ystyried atebion cyfreithiol at Crisis/JB i lunio rhestr. | Ar unwaith |

## 2. Diweddariad gan Lywodraeth Cymru

Rhoddodd HF ddiweddariad byr gan Lywodraeth Cymru:

- Cyfarfu grŵp cyfeirio'r awdurdodau lleol am y trydydd tro a buont yn trafod plant, pobl ifanc a thrais yn erbyn menywod. Mae HF wedi dosbarthu nodyn yn tynnu sylw at y prif bwyntiau. Bydd nodyn manwl ar gael maes o law.
- Cyfarfu grŵp cyfeirio'r awdurdodau lleol ym mis Chwefror hefyd i drafod pynciau addasrwydd, llety dros dro a throi allan. Bydd y nodyn manwl yn cael ei ddosbarthu cyn cyfarfodydd sydd â'r themâu cyfatebol.
- Mae gwaith ar ddyraniadau yn parhau gyda Chartrefi Cymunedol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru:
    - Erbyn hyn mae ymgynghorydd wedi'i benodi i arwain y darn hwn o waith gydag awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.

    - Y cynllun gwaith yw ymgysylltu ag un rhanbarth a phedair ardal awdurdod lleol fel astudiaethau achos manwl sy'n ceisio cynnwys ardaloedd amrywiol â gwahanol nodweddion. Mae CC yn arwain y gwaith o ymgysylltu â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.
    - Mae arolwg dienw yn cael ei ddatblygu i redeg ochr yn ochr â'r astudiaethau achos, a fydd yn ceisio trafod gwahanol bynciau mewn ffordd ddiogel a phreifat. Bydd hyn yn cael ei lansio ddechrau mis Ebrill.
    - Oherwydd yr amserlen dynn ar gyfer y gwaith hwn, mae cyfarfod y Panel ar ddyraniadau wedi cael ei symud er mwyn sicrhau bod cymaint o amser ag sy'n bosibl i wneud y gwaith dyraniadau.
    - Cynhaliwyd sioeau teithiol rhanbarthol gydag awdurdodau lleol, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac eraill i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r gwaith hwn a ble mae'n eistedd yn yr agenda polisi ailgartrefu cyflym. Hyd yn hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â 50 o randdeiliaid ac mae angen ymgysylltu â 180 yn rhagor. Cynhelir sesiwn ymgysylltu wedi'i aildrefnu yng ngogledd Cymru ym mis Mai – cafodd ei ganslo oherwydd tywydd gwael ar ddechrau'r flwyddyn.
- Mae gwaith ymgysylltu yn mynd rhagddo er mwyn cyfarfod pob awdurdod lleol a thrafod eu hargymhellion ar gyfer diwygio mewn cysylltiad â'r agenda ailgartrefu cyflym. Mae'r prif themâu sy'n dod i'r amlwg yn cynnwys:
    - Llethu gan y cyflenwad a'r galw.
    - Her i ganolbwyntio ar feysydd polisi.
    - Yr agenda ailgartrefu cyflym yn teimlo fel 'breuddwyd gwrach'.
    - Mae nifer o faterion yn ymwneud â fforddiadwyedd, gan gynnwys: rhent, cael gafael ar dir, prynu.
    - Pwysau ariannol yn gysylltiedig â'r grant cymorth tai.
    - Mae angen mwy o gymorth gan awdurdodau lleol ar gyfer y posibilrwydd o ddiwygiadau cyfreithiol, yn enwedig yng nghyswllt cryfhau ymateb gwasanaethau cyhoeddus.
    - Mae cyfleoedd yn ymwneud â chyfrifoldeb corfforaethol a gwneud digartrefedd yn ganolog i brosesau gwneud penderfyniadau.
    - O ran dyraniadau, mae angen gwella llif tai drwy'r system.

**3. Trafodaeth ar y papur yn nodi'r prif bwyntiau o gyfarfod Grŵp Cyfeirio'r Awdurdodau Lleol ar Blant, Pobl Ifanc a Thrais yn erbyn Menywod**

Trafododd y Panel y papur a nodwyd y meysydd a ganlyn ar gyfer trafodaeth bellach:

- A ddylai pobl ifanc 16-17 oed gael tenantiaeth.
- Eiriolaeth i bobl ifanc, gan gynnwys rôl prif gydlynydd. Gallai gweithiwr cymorth tai gyflawni'r rôl hon (â'i statws yn cael ei gydnabod gan weithwyr proffesiynol eraill yn y canllawiau).
- Ystyried pa mor dda y mae'r broses dyraniadau yn cefnogi goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ailgartrefu cyflawnwyr troseddau a materion penodol sy'n ymwneud â ffoaduriaid y tynnwyd sylw atynt yn y papur.
- Lle mae'r cyfrifoldeb am bobl ifanc yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a'r Ddeddf Tai. Ar hyn o bryd mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn gallu 'optio allan', ond nid tai.
- Mae ar wasanaethau plant angen niferoedd isel o blant sy'n derbyn gofal ar gyfer dangosyddion perfformiad allweddol, ond mae pryder bod hyn yn golygu nad yw rhai plant yn cael eu dosbarthu fel plant sy'n derbyn gofal, ac o ganlyniad, nad ydynt yn cael yr un gefnogaeth.

- Mae awdurdod lleol wedi tracio siwrneiau achosion o ddigartrefedd sy’n ailddigwydd (roedd hyn yn cynnwys y rhai a oedd wedi dod i sylw’r gwasanaethau digartrefedd fwy na thair gwaith) er mwyn ystyried pryd y gallai ymyriad cynnar fod wedi cael mwy o effaith. Canfu’r astudiaeth fod llawer o bobl wedi bod ‘ar gyrion gofal’ fel plant, a bod eu hawdurdod lleol yn defnyddio ei adnoddau i’w hatal rhag mynd i ofal. Fodd bynnag, roedd hyn yn golygu na allent gael y gyfradd ystafell ychwanegol gan nad oeddent yn derbyn gofal yn swyddogol. Canfuwyd hefyd fod pobl ifanc 16-17 oed yn cyflwyno eu hunain yn iau na’u hoed (yn nes at yr arddegau cynnar) oherwydd eu lefelau uchel o drawma.
- Yn yr Alban, mae menter proffil uchel a gefnogir gan Brif Weinidog yr Alban yn ymwneud â phobl ifanc mewn gofal - ‘The Promise’. Mae’r sail gyfreithiol yn wahanol, ond gellid dysgu rhai gwersi polisi ac ymarfer o’r fenter hon i ddylanwadu ar y sefyllfa yng Nghymru.

<table>
<tr><th>Aelod(au) y Panel</th><th>Cam Gweithredu</th><th>Amserlen</th></tr>
<tr><td>Hannah Fisher</td><td>Dosbarthu i’r Panel:<ul><li>Nodyn manwl o drafodaeth trydydd grŵp cyfeirio’r awdurdodau lleol ar blant, pobl ifanc a thrais yn erbyn menywod.</li><li>Nodyn manwl o ail grŵp cyfeirio’r awdurdodau lleol ar addasrwydd, llety dros dro a throi allan.</li></ul>Yn niweddariad Llywodraeth Cymru yn yr wythfed cyfarfod, cynnwys diweddariadau ar y canlynol:<ul><li>Amlinellu pa awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig fydd yn ymwneud â’r gwaith ymgysylltu.</li><li>Diweddariad ar yr arolwg dienw a lansiwyd yn gynnar ym mis Ebrill.</li></ul></td><td>24.04.2023<br><br>10.05.2023<br>(ar gyfer Cyfarfod 5.1)<br><br>24.04.2023</td></tr>
<tr><td>Abi Renshaw</td><td>Holi pryd mae’r Panel ar gael a threfnu dyddiad ar gyfer cyfarfod atodol 5.2 ar ddyraniadau a throi allan rywbryd ar ôl 16 Mehefin.</td><td>Ar unwaith</td></tr>
<tr><td>Jordan Brewer, Suzanne Fitzpatrick</td><td>Neilltuo amser mewn cyfarfod yn y dyfodol ar gyfer trafodaeth bellach ar y themâu allweddol a nodwyd uchod yng nghyswllt plant, pobl ifanc a thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.</td><td>I’w chadarnhau</td></tr>
</table>

**Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Digartrefedd**

Nododd y Cadeirydd y byddai’r cyfarfod yn canolbwyntio ar ddau faes cyffredinol:

- Rôl ehangach iechyd a gwasanaethau cymdeithasol er mwyn atal a dileu digartrefedd.
- Digartrefedd drwy lens defnyddio sylweddau, iechyd meddwl ac anabledd.

**4. Diweddariad gan Arbenigwyr drwy Brofiad**

Rhoddodd KD drosolwg o’r papur Arbenigwyr drwy Brofiad a ddosbarthwyd i aelodau’r Panel cyn y cyfarfod. Roedd y prif themâu a godwyd gan bobl â phrofiad ymarferol yn gysylltiedig ag iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a digartrefedd yn cynnwys:

- Yr angen am fwy o ymwybyddiaeth o’r arwyddion cynnar a ffactorau sbarduno ymysg gweithwyr proffesiynol mewn sectorau eraill.
- Yr angen i wasanaethau fod yn seiliedig ar drawma ac yn ymwybodol o’r effaith y gall materion tai ei gael ar iechyd meddwl a materion sylweddau.
- Gallai ymyriadau cynnar gan wasanaethau cyhoeddus fod wedi atal digartrefedd rhai pobl.

- Gallai rhannu gwybodaeth gryfhau cydweithrediad rhwng ystod ehangach o wasanaethau i fynd i'r afael â digartrefedd. Cyfeiriodd pobl a oedd mewn perygl o fod yn ddigartref at ryngweithio â gwahanol wasanaethau cyhoeddus, gan ddweud bod "pawb yn cymryd nodiadau ond neb yn gwneud dim."
- Mae problemau iechyd meddwl ac angen blaenoriaethol yn seiliedig ar ddiagnosis neu benderfyniad ynglŷn â difrifoldeb y cyflwr iechyd meddwl, a gall effeithio ar y trothwy i gymhwyso. Nid oes gan bawb ddiagnosis neu anghenion sy'n bodloni'r trothwy. Mae angen canllawiau cryfach ar raddfa iechyd meddwl (blaenoriaethu) a sut yr ymdrinnir â hyn. Os yw angen blaenoriaethol yn cael ei dynnu'n ôl yn raddol, mae hyn yn mynd yn llai o broblem.
- Nid yw'r prawf bwriadoldeb presennol yn ystyried yr effaith y gall iechyd meddwl a defnyddio sylweddau ei gael ar allu unigolyn i gynnal tenantiaeth. Mae pobl sy'n cael anhawster â'r materion hyn yn aml yn cael eu gweld fel pobl sy'n "ddigartref yn fwriadol."
- Gall y prawf cysylltiad lleol presennol achosi anawsterau i'r rhai hynny sy'n cael anhawster â defnyddio sylweddau. Gall cael eu gorfodi i aros yn eu hardal leol gael effaith negyddol ar adferiad. Mae yna hefyd broblemau â phobl sy'n agored i gael eu hecsbloetio mewn cysylltiad â sylweddau a throseddoldeb, ac mae'r prawf cysylltiad lleol yn achosi anhawster yn y cyswllt hwn hefyd.
- Mae'r prawf cysylltiad lleol hefyd yn achosi anawsterau i bobl ifanc, yn enwedig y rhai hynny sy'n gadael gofal neu nad oes ganddynt rwydwaith cefnogi.
- Mae angen llety priodol i bobl â phroblemau defnyddio sylweddau. Mae angen darpariaeth amrywiol, gan gynnwys llety gwlyb, sych neu Dai yn Gyntaf i helpu pobl â'u hadferiad.
- Gall profiadau o drosglwyddo o wasanaethau pobl ifanc i wasanaethau oedolion amrywio, â chymorth tai yn wahanol i bobl ifanc 16/17 oed a phobl ifanc 18 oed.
- Mae cymorth trosglwyddo ar gyfer iechyd meddwl yn anodd iawn oherwydd mae'r cynnig i oedolion yn wahanol iawn i'r cynnig ar gyfer plant. Efallai y bydd angen i wasanaethau cymorth tenantiaeth lenwi'r bwlch sy'n bodoli ar ôl trosglwyddo.
- Mae angen parhad yn y cymorth defnyddio sylweddau o lety dros dro neu lety â chymorth i lety sefydlog, ag arweiniad allweddol yn symud ar draws y gwasanaethau gyda nhw.
- Mae mynediad at ofal iechyd meddwl a chymorth defnyddio sylweddau yn anodd iawn, ac o ganlyniad mae cynnwys swyddogion cymorth iechyd meddwl a defnyddio sylweddau fel rhan o dimau tai yn fuddiol.
- Gofynnwyd a allai gweithwyr iechyd proffesiynol chwarae mwy o rôl drwy sicrhau bod angen am lety yn rhan o'r asesiad o anghenion unigolyn er mwyn helpu i leihau achosion o ryddhau o'r ysbyty i ddigartrefedd.
- Mynegwyd pryder nad yw canllawiau yn ymwneud â rhyddhau i ddigartrefedd yn cael eu dilyn yn aml – er enghraifft gan ysbytai, systemau gofal a'r system cyfiawnder troseddol.
- Mae pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl a defnyddio sylweddau yn cael eu pasio yn ôl ac ymlaen rhwng gwasanaethau penodol, ac mae'r unigolyn yn cael cyfarwyddyd i roi sylw i un yn gyntaf cyn cael cymorth ar gyfer y llall.
- Gofynnwyd cwestiynau ynglŷn â rôl ddiogelu gwasanaethau cymdeithasol lle mae pobl ddigartref mewn perygl o gael eu cam-drin a'u hecsbloetio. Mae'r rhai sy'n agored i niwed yn cynnwys pobl ifanc, menywod sy'n cael eu hecsbloetio mewn gwaith rhyw, dioddefwyr caethiwed a rhai sy'n gadael gofal. A yw'n bosibl i Swyddogion Porth (tîm Grant Cymorth Tai) helpu â dyletswyddau diogelu?

| Aelod(au) y Panel | Cam Gweithredu | Amserlen |
|---|---|---|
| Katie Dalton | Dosbarthu papur diweddaraf yr Arbenigwyr drwy Brofiad ar bob gwasanaeth cyhoeddus i'r Panel cyn dyddiad y cyfarfod nesaf. | 24.04.2023 |

5. **Trafodaeth ar rôl ehangach iechyd a gwasanaethau cymdeithasol er mwyn atal a dileu digartrefedd, gan ganolbwyntio ar ddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl ac anabledd**

Trafododd y Panel y sefyllfaoedd a oedd yn dod i'r amlwg ac argymhellion ar gyfer diwygio a oedd yn ymwneud â:

- Deddfwriaeth digartrefedd greiddiol
- Dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus ehangach

â'r nod o geisio cael consensws ar yr argymhellion.

***Deddfwriaeth digartrefedd greiddiol***

**Asesiadau'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Ddeddf Tai**

Gofynnwyd a fyddai'n bosibl cysoni'r ddwy Ddeddf er mwyn rhannu un asesiad yn hytrach na bod pob un yn gwneud ei un ei hun? Dylai'r pwyslais fod ar roi sylw priodol i nodweddion gwarchodedig yr unigolyn a'i amgylchiadau drwy ddull gweithredu sy'n seiliedig ar drawma.

**Iechyd a diogelwch llety dros dro**

Mae'r papur Arbenigwyr drwy Brofiad yn trafod effaith llety dros dro o ansawdd gwael ar bobl anabl yn fwyaf penodol. Mae prinder data ynglŷn â pha stoc sydd ar gael, a chyflwr y stoc honno, o safbwynt cadw pobl yn ddiogel. Ni ddylai tai fod yn effeithio ar iechyd pobl ac yn gwneud cyflyrau'n waeth, e.e. llwydni. Mae'r gyfraith yn nodi'n glir iawn bod yn rhaid i awdurdodau cyhoeddus ystyried anabledd mewn cysylltiad ag addasrwydd llety, yn gyffredinol ac o dan adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

**Cymhwyso'r Ddeddf Rhentu Cartrefi i lety dros dro**

Llety gwely a brecwast yw'r unig lety dros dro sydd wedi'i eithrio o'r Ddeddf Rhentu Cartrefi, sy'n golygu bod awdurdodau lleol yn ceisio symud oddi wrth ddefnyddio eu stoc dai eu hunain a stoc dai landlordiaid cymdeithasol cofrestredig fel llety dros dro. Pe bai pob llety dros dro wedi'i eithrio, gallai roi mwy o hyblygrwydd, diddymu rhestrau aros anghyfreithlon a sicrhau bod modd dod o hyd i le i bobl sydd angen cartrefi wedi'u haddasu.

**Ymddygiad gwrthgymdeithasol ac annerbyniol**

Gall y 'labeli' hyn benderfynu a yw rhywun yn cael llety ai peidio, a gall hyn achosi anawsterau, yn enwedig yng nghyswllt tai cymdeithasol. Gellid gwneud asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb er mwyn asesu a yw rhai grwpiau yn cael eu heffeithio'n fwy na'i gilydd gan ragfarn.

**Cysylltiad lleol**

Mae'r Panel eisoes wedi cytuno i lacio cyfyngiadau cysylltiad lleol, gan gynnwys eithrio pobl iau. Gallai'r rhai hynny sy'n ystyried eu hunain yn anabl, neu sydd â chyflyrau iechyd cronig eraill, hefyd fod yn grŵp sydd wedi'u heithrio gan fod gwahanol awdurdodau lleol yn cynnig mynediad amrywiol at gyfleusterau meddygol. Byddai hyn yn cefnogi byw'n annibynnol ac yn caniatáu i bobl fyw yn agos/teithio'n rhwydd i apwyntiadau. Nodwyd y dylai'r Panel sicrhau nad yw'n achosi canlyniadau anfwriadol i awdurdodau lleol â phrif ddinas a darpariaeth lawn o wasanaethau iechyd.

**Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Ddigartrefedd**

Awgrymodd un aelod awdurdod lleol o'r Panel y dylid cysylltu rhai o argymhellion y Panel â Chynllun Gweithredu'r Strategaeth Ddigartrefedd, fel bod yr awdurdodau lleol i gyd ar yr un dudalen ac yn deall eu cylch gorchwyl. Byddai hyn hefyd yn osgoi dyblygu gwaith ac yn sicrhau bod modd mynd i'r afael â'r gwaith mewn ffordd ystyrlon.

**Gorchymyn Addasrwydd**

Awgrymwyd, gan fod prinder adnoddau a stoc, nad yw'r gorchymyn addasrwydd yn gweithio. Os nad yw llety'n gallu bodloni gofynion addasrwydd, a oes cam gorfodol i gynnwys sut y mae anabledd

wedi'i ystyried fel rhan o'r asesiad? Yng Nghymru, a ydym yn rhoi sylw priodol i ystyried y Confensiwn ar Hawliau Pobl Anabl? Mae'r gyfraith yn nodi'n glir bod yn rhaid ystyried anabledd, ond mae'n bosibl nad yw hynny'n digwydd yn ymarferol.

***Dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus ehangach***

**Gwaith amlasiantaethol a dyletswyddau i gyfeirio/cydweithredu**

Nodwyd bod dyletswydd i adrannau tai a gwasanaethau cymdeithasol gydweithredu yn bodoli yn neddfwriaeth Cymru a Lloegr ers degawdau. Mae canllawiau clir iawn, ond mae'r Panel yn cytuno nad ydynt yn gweithio. Mae gwasanaethau digartrefedd yn codi anghenion nad ydynt wedi cael eu diwallu gan iechyd a gofal cymdeithasol ond na ellir eu bodloni drwy'r system digartrefedd, h.y. ymyriadau gofal nyrsio.

Gwaith amlasiantaethol ar y lefel leol yw'r hyn sydd ei angen er mwyn atal – dylai fod yn ddull gweithredu cyfannol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan ddarparu'r gwasanaeth iawn i'r person iawn. Dywedwyd na ddylai hyn gael ei ragnodi gan gyllidebau a chyllid, ac na allwn ganiatáu system lle mae unigolyn yn gwneud ei hun yn waeth er mwyn cael y gwasanaethau y mae arno eu hangen.

Un o brif ganfyddiadau ymchwil Shelter Cymru ar ddileu troi allan i ddigartrefedd oedd nad oes gan landlordiaid cymdeithasol y grym ar hyn o bryd i gynnwys gwasanaethau iechyd, ac maent wedi cadarnhau na fydd gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd yn ymateb os nad oes hysbysiad troi allan wedi'i gyflwyno. Ar hyn o bryd, mae'r asiantaethau'n gyndyn o ymrwymo i weithredu fel yr asiantaeth gyfrifol felly nid oes ymateb amlasiantaethol. Mae angen i weithwyr cymorth tai a landlordiaid cymdeithasol allu dylanwadu'n gyfreithiol ar asiantaethau eraill mewn ffordd briodol.

Mae ar waith amlasiantaethol angen asiantaeth arweiniol, ond ni ddylai gwasanaethau digartrefedd fod yn gyfrifol am y prif ymateb bob tro. Ni waeth pa mor gadarn a seiliedig ar drawma yw'r system digartrefedd, mae gorfod bod yn rhan o'r system honno yn dal i allu achosi trawma. Mynegwyd rhywfaint o bryder a fyddai cael prif asiantaeth yn gweithio, gan fod hynny'n bodoli'n barod ar gyfer pobl ifanc 16 a 17 oed, ond maent yn cael eu trosglwyddo yn ôl ac ymlaen o'r naill wasanaeth i'r llall.

Dylai gwaith amlasiantaethol gael ei weld fel mantais i wasanaethau eraill, ac nid fel baich. Mae data yn ymwneud â sut y gall ymyrryd yn gynnar atal ymgysylltu â gwasanaethau iechyd/systemau cyfiawnder troseddol yn nes ymlaen. Mae angen i'r Panel sicrhau bod hyn yn glir yn y naratif sy'n gysylltiedig â'r argymhelliad hwn. Mae'n bwysig bod yn ymwybodol o gyd-destun gwasanaethau cyhoeddus sydd heb lawer o adnoddau, ond mae angen i'r Panel fod yn uchelgeisiol ac yn llawn dyhead.

Efallai y byddai'r Panel yn hoffi gwneud yr argymhellion a ganlyn:

- Mae gan bob gwasanaeth cyhoeddus perthnasol ddyletswydd i gydweithredu, gydag arweinydd dynodedig a chytundeb i wasanaethau eraill gydweithredu a rhannu gwybodaeth. Bydd yn rhaid i asiantaethau eraill ar wahân i dai gael eu 'prynu i mewn', o bosibl drwy roi dyletswydd arnynt i fod yn bresennol.
- Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i gefnogi, a phŵer i alw cynrychiolwyr amlasiantaethol o bob rhan o'r sector cyhoeddus at ei gilydd. Yn ogystal, mae dyletswydd sector cyhoeddus ehangach i gydweithredu, sy'n cynnwys y gallu i gyfeirio, ynghyd â dyletswydd i ymgysylltu â threfniadau amlasiantaethol awdurdodau lleol ar gyfer amddiffyn y cyhoedd (MAPPA). Yn yr Alban, roedd ymateb anffafriol i ddyletswydd i gydweithredu ag arweinydd dynodedig ond ni chynigiwyd atebion eraill.

Teimlai grŵp cyfeirio'r awdurdodau lleol yn gryf iawn, o safbwynt dyletswydd i helpu i gadw tenantiaeth, bod angen i'r ddyletswydd honno fod yn gymwys i asiantaethau eraill ar wahân iddynt hwy er mwyn iddi weithio'n iawn. Mae hyn yn cefnogi'r syniad ynglŷn â'r gallu i alw tîm at ei gilydd neu ddarparu ymateb amlasiantaethol. Mae hyn wedyn yn caniatáu cysondeb yn hytrach nag ewyllys da fel canlyniad i berthnasoedd proffesiynol.

Er mwyn i ddyletswydd i gyfeirio fod yn effeithiol, mae angen cael dyletswydd hefyd i ymateb i atgyfeiriad. Yn Lloegr, mae mwy o atgyfeiriadau at wasanaethau tai wedi'u gwneud oherwydd y ddyletswydd i gyfeirio; fodd bynnag, mae rhywfaint o bryder bod yr atgyfeiriadau hyn yn cael eu gwneud heb wybodaeth neu gydweithrediad priodol.

Nid oes ymgyfreitha ar y ddyletswydd i gyfeirio wedi bod yn Lloegr. Fodd bynnag, nid yw'r system yn caniatáu i rywun nodi na wnaethpwyd cyfeiriad pan ddylai un fod wedi cael ei wneud.

Mae'r Alban yn gweithredu dyletswydd i ofyn a gweithredu yr hydref hwn drwy'r Ddeddf Tai. Gallai hyn fod yn fwy priodol fel bod gwasanaethau'n gweithredu o fewn eu cylch gorchwyl eu hunain ac yn deall y materion.

Os yw'r Panel yn mynd i argymell dyletswydd i gyfeirio, dylai gynnwys dyletswydd i gydweithredu a rhestr helaeth o'r asiantaethau y dylid eu cynnwys, gan gynnwys: addysg, iechyd a gofal cymdeithasol (ysbytai, iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, meddygon teulu), cyfiawnder troseddol (yr heddlu, llysoedd) ac awdurdodau lleol.

Gofynnwyd a allai'r Panel argymell dyletswydd i gyfeirio i asiantaethau nad ydynt wedi'u datganoli? Efallai y byddai'n haws argymell os ydynt eisoes wedi'u henwi ar y rhestr yn Lloegr. Dywedodd aelod o'r Panel y gall heddlu Cymru ddadgymhwyso'r Ddeddf Crwydraeth, gan ddangos bod datganoli yn hyblyg. O ganlyniad, dylai'r Panel gael hyder i gyflwyno ei argymhellion.

**Byrddau cynllunio rhanbarthol**

Mae pob corff iechyd a gofal cymdeithasol rhanbarthol yn bartner gwasanaeth i'r byrddau cynllunio rhanbarthol. Mae rôl i fyrddau cynllunio rhanbarthol ym maes digartrefedd a chymorth tai. Mae lle ar gyfer tai ar y byrddau ond nid yw'r lleoedd yn cael eu llenwi gan wasanaethau digartrefedd fel arfer.

**Rhyddhau i ddigartrefedd**

Mae angen cynllunio ymlaen llaw er mwyn sicrhau nad oes neb yn cael ei ryddhau i ddigartrefedd. Mae Pathway (rhan o Crisis yn Lloegr) a rhai asiantaethau yng Nghymru yn gweithio mewn lleoliadau gofal iechyd er mwyn atal rhyddhau i ddigartrefedd, ond nid oes cysondeb rhwng yr holl leoliadau iechyd ledled Cymru.

Gofynnwyd a allai deddfwriaeth helpu i sicrhau mwy o gysondeb? Mae angen gweithwyr tai proffesiynol ym maes iechyd ac mae angen gweithwyr iechyd proffesiynol ym maes tai. Mae hyn yn dod dan iechyd cynhwysiant, ac mae digon o ymchwil i gefnogi'r maes hwn.

Mae deddfwriaeth ar wahân ar ryddhau o ysbytai iechyd meddwl, â llety'n cael ei ddarparu gan yr awdurdod lleol perthnasol.

**Diogelu**

Trafododd aelodau o'r Panel yr ansicrwydd ynglŷn â sut y mae adolygiadau diogelu oedolion yn cael eu hysgogi a lle mae digartrefedd yn eistedd mewn ystyriaethau diogelu.

Bydd LD yn ymchwilio i drothwyon ar gyfer yr adolygiadau hyn ac at ba ddyletswyddau y mae'r rhain yn arwain.

**Hawl i adolygu**
Ystyriodd y Panel y mecanwaith priodol ar gyfer her os bydd dyletswydd heb ei chyflawni gan gorff cyhoeddus y tu allan i faes tai/digartrefedd yn achosi i rywun fod yn ddigartref. Nodwyd y gallai hyn fod yn dasg weinyddol i wasanaethau ac y gallai rheoleiddiwr digartrefedd fod yn fuddiol.

Ar hyn o bryd, yr unig hawl i adolygiad yw cais i adolygu penderfyniadau awdurdodau lleol wrth gyflawni eu swyddogaethau digartrefedd. Nid yw gwasanaethau cymdeithasol yn debygol o fod yn destun cais am adolygiad mewnol ac apêl ddilynol i'r llys sirol.

Pe bai'r Panel yn argymell y dylai nifer o gyrff cyhoeddus fod â dyletswydd i gydweithredu, mae'n debyg na fyddai'r cyrff hyn yn gwerthfawrogi'r syniad y byddai eu gweithredoedd yn cael eu hadolygu. Byddai'n bosibl deddfu ar gyfer hyn, ond gallai fod yn anodd i'w weithredu.

Efallai y bydd angen diwygio Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012 i gynnwys adolygiadau yn ymwneud â chyrff sydd â dyletswydd i gydweithredu er mwyn sicrhau bod cymorth cyfreithiol yn hygyrch.

Os nad yw'r ddeddfwriaeth yn nodi llwybr herio, bydd hawl i adolygiad barnwrol bob amser.

**Argymhellion NICE**
Cyflwynwyd argymhellion newydd gan NICE (Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal) ym mis Mawrth 2022 ar iechyd a gofal cymdeithasol integredig i bobl sy'n profi digartrefedd. Mae'n rhy gynnar i ddweud pa mor dda maent yn gweithio yn ymarferol, ac mae'n bosibl nad oes digon o ymwybyddiaeth o'r argymhellion mewn awdurdodau lleol.

Teimlai'r Panel y gellid cynnwys mwy o wybodaeth am anabledd yn y canllawiau.

**'Awdurdod tai lleol'**
Gofynnwyd a allai dyletswyddau atal gyfeirio at yr awdurdod lleol cyfan yn hytrach na'r awdurdod tai lleol? Mae'n bosibl y gallai hyn ddod â rhai o'r swyddogaethau gwasanaeth cyhoeddus eraill at ei gilydd ond parhau dan yr un corff.

**Prinder data**
Roedd y Panel yn cydnabod nad oes data yng Nghymru ar gyfran y bobl â phrofiad personol o ddigartrefedd sy'n ystyried eu hunain yn anabl neu â chyflwr iechyd cronig. A oes modd cael gofyniad cyfreithiol i sicrhau bod y data'n cael eu casglu? Dylent gael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru, â chymorth gan bob awdurdod lleol. Mae'n debyg y bydd y data allweddol hyn yn cael eu cofnodi fel rhan o Fframwaith Canlyniadau Strategol newydd Llywodraeth Cymru er mwyn deall y gwahaniaethau o ran mynediad a chanlyniadau i'r grwpiau hyn a cheisio rhoi sylw iddynt.

***Anabledd***
**Cofrestr tai hygyrch**
Nodwyd nad oes gan 50% o'r awdurdodau lleol gofrestr tai hygyrch. Bu aelodau'r Panel yn ystyried a ellid argymell y dylai pob awdurdod lleol yng Nghymru gael cofrestr tai hygyrch, yn gweithio gyda'r polisi dyraniadau cyffredin. Fodd bynnag, nodwyd y byddai angen penderfynu ynglŷn â pha wybodaeth y dylai ei chynnwys ac a yw'n helpu i gynyddu'r cyflenwad.

**Asesiad o'r farchnad dai leol**
Bu aelodau'r Panel yn ystyried a ellid ystyried cohortau ehangach yn yr asesiad o'r farchnad dai leol. Gallai ymgysylltu â chymunedau helpu i nodi'r anghenion presennol a diogelu stoc ar gyfer y dyfodol yng Nghymru.

**Safonau tai hygyrch**
Dywedodd yr aelodau fod angen i dai wedi'u haddasu ddarparu nid yn unig ar gyfer anabledd corfforol, ond hefyd ar gyfer anabledd na ellir ei weld ac anabledd meddyliol. Byddai aelodau'r Panel yn croesawu safon tai hygyrch interim, ond byddai angen penderfynu sut y byddai'n gweithio gyda'r Gofynion Ansawdd Datblygu (GAD) a Safonau Ansawdd Tai Cymru (SATC).

**Ailddiffinio anabledd**
Dywedodd aelod o'r Panel y byddai'n fuddiol o bosibl pe gellid ailddosbarthu anabledd i gynnwys iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau fel sy'n digwydd yn America.

**Gwrthod addasiadau**
Nodwyd bod landlordiaid preifat, ar hyn o bryd, yn gallu gwrthod addasiadau, hyd yn oed os nad oes cost i'r landlord. A fyddai'n bosibl ei gwneud yn ofynnol yn Erthygl 1 o Brotocol 1 Diogelu Eiddo (A1P1) i landlordiaid preifat gydsynio i addasiadau yn yr eiddo?

**Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth**
Mae rhestrau aros hir iawn am asesiadau anhwylder sbectrwm awtistiaeth oedolion a phlant, felly ar hyn o bryd mae llawer o bobl sydd heb gael diagnosis. Ambell waith, ar ôl gwneud yr asesiad, bydd angen symud yr unigolyn i eiddo un ystafell wely, e.e. oherwydd sŵn, fflatiau ddim yn addas. Mae eiddo o'r fath yn brin iawn. Dywedodd un aelod awdurdod lleol o'r Panel fod nifer o achosion digartrefedd yn dal i aros am eu hasesiad tra mae'r awdurdod lleol yn ceisio penderfynu a oes dyletswydd digartrefedd tuag atynt.

***Defnyddio sylweddau***
**Defnyddio sylweddau**
Mae'r Panel yn ymwybodol bod pobl sydd â phroblemau defnyddio sylweddau yn fwy tebygol o gael profiad gwael o'r system cymorth tai. Teimlai aelodau'r Panel fod angen dull gweithredu sy'n seiliedig ar drawma a bod angen deall pam y gallai pobl fod yn defnyddio sylweddau fel math o hunanfeddyginiaeth pan mae cymorth mwy ffurfiol (yn enwedig cymorth iechyd meddwl) mor brin. Pan fydd unigolyn yn methu â chael mynediad at wasanaethau oherwydd ei fod yn defnyddio sylweddau mae'n cael ei gyfeirio yn ôl ac ymlaen o'r naill wasanaeth i'r llall ac yn syrthio rhwng y craciau. Dywedir wrth unigolion bod angen iddynt roi sylw i'w harfer o ddefnyddio sylweddau cyn y gallant gael help ar gyfer problem iechyd meddwl neu broblem llety, ond dylid rhoi sylw i bopeth ochr yn ochr.

Gall mynediad at y cartref iawn yn y lle iawn olygu llety dros dro neu barhaol. Wrth ddod o hyd i le i unigolion sy'n gwella ar ôl bod yn defnyddio sylweddau mae angen ystyried eu siwrnai wella, e.e. darpariaeth wlyb neu sych, a gofyn i'r unigolyn beth fyddai'n well ganddo. Mae rhai pobl sydd â phrofiad personol wedi teimlo mai eu hunig ddewis yw bod yn ddigartref ar y stryd yn hytrach na derbyn llety dros dro anaddas er mwyn cadw eu hunain yn ddiogel a chadw eu siwrnai tuag at adfer ar y trywydd cywir.

Awgrymwyd y gall landlordiaid cymdeithasol cofrestredig fod yn gyndyn o gymryd risg pan mae'n fater o ddarparu llety i bobl sydd â phroblemau defnyddio sylweddau oherwydd y Ddeddf Camddefnyddio Sylweddau. Fodd bynnag, mae gan y Ddeddf hon bolisi clir ar leihau niwed. Mae angen gwaith ar y cyd rhwng tai a chyfiawnder troseddol er mwyn cael hyn yn iawn.

Problem fawr i awdurdodau lleol yw bod pobl yn dod atynt ac yn gofyn iddynt am atgyfeiriad a diagnosis cyflym gan wasanaethau iechyd meddwl neu gamddefnyddio sylweddau. Mae'r broblem yn codi pan nad yw'r unigolyn yn cyrraedd y trothwy statudol ar gyfer ymyriad oherwydd nad yw wedi cael diagnosis. Gallai'r gwrthodiad hwnnw adael yr unigolyn mewn sefyllfa agored iawn i niwed ac yn cael ei leoli mewn llety dros dro oherwydd ei anghenion lefel uchel a phresenoldeb systemau diogelwch ar y safle. Sut mae awdurdodau lleol yn cael yr asesiad priodol?

**Bygythiad i ddiogelwch**
Nid yw'r Panel wedi canfod ateb eto ar gyfer y grŵp bach o bobl ag anghenion cymhleth sy'n fygythiad i ddiogelwch gweithwyr cymorth a thenantiaid eraill. Mae'r grŵp hwn yn wynebu risg o droseddoldeb. Gallai ymchwil sy'n cael ei wneud ym Mhrifysgol Wrecsam i dai ar gyfer pobl â phroblemau defnyddio sylweddau helpu i ddod o hyd i ateb. Yn y cyfamser, gallai cael gwasanaethau i weithio'n well gyda'i gilydd a chael mwy o gyllid fod o gymorth.

| Aelod(au) y Panel | Cam Gweithredu | Amserlen |
|---|---|---|
| Liz Davies CB | Meysydd i roi cyngor cyfreithiol arbenigol arnynt:<br>a) Adolygiadau diogelu oedolion mewn gwasanaethau oedolion. Beth yw'r ysgogyddion ar gyfer adolygiad ac at ba ddyletswyddau maent yn arwain?<br>b) Dull gweithredu amlasiantaethol ar gyfer cymorth digartrefedd. Potensial ar gyfer argymhelliad ar ddyletswydd statudol dull gweithredu amlasiantaethol a rhannu gwybodaeth rhwng gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys beth y gellir ei wneud i wella'r bartneriaeth hon yn lleol.<br>c) Dyletswydd i gyfeirio a datganoli. A all y Panel argymell dyletswydd i gyfeirio ar gyfer asiantaethau nad ydynt wedi'u datganoli? A yw'n haws argymell os ydynt wedi'u cynnwys yn barod ar y rhestr dyletswydd i gyfeirio yn Lloegr.<br>d) Adolygiad barnwrol. Beth fyddai rôl adolygiad barnwrol mewn cysylltiad â hawl i adolygiad o ddyletswyddau ar gyrff cyhoeddus i ddileu digartrefedd.<br>e) Deddf Rhentu Cartrefi – eithrio llety dros dro.<br>f) Dyletswydd awdurdod lleol i gefnogi. Pa mor ddichonadwy yw dyletswydd awdurdod lleol i gefnogi, â'r grym i alw cynrychiolwyr amlsector ar draws y sector cyhoeddus? Ochr yn ochr â dyletswydd sector cyhoeddus ehangach i gydweithredu, yn cynnwys y gallu i gyfeirio a hefyd dyletswydd i ymgysylltu â threfniadau amlasiantaethol awdurdodau lleol ar gyfer amddiffyn y cyhoedd. | I'w chadarnhau |

| | | |
|---|---|---|
| | g) Asesiad o'r angen am lety. Beth sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith yn yr asesiad o'r angen am lety yng nghyswllt asesu anabledd? | |
| Suzanne Fitzpatrick a Pete Mackie | Rhannu'r fframwaith atal gyda Crisis a LD er mwyn darparu naratif i'r adroddiad, gan asesu lle gallai gwahanol gamau'r broses atal fod o gymorth, gan gynnwys pa gyrff cyhoeddus ddylai gael eu cynnwys. | Ar unwaith |
| Nazia Azad | Anfon arferion da yn ymwneud â chefnogi pobl â niwrowahaniaeth at AR ar gyfer y ddogfen dai. | Ar unwaith |
| Abi Renshaw | Anfon y ddogfen ymarfer da a gafwyd gan NA at y Panel. | Ar unwaith |
| Hannah Fisher | Anfon i'r Panel:<br>• Diweddariad ar waith Llywodraeth Cymru ar ehangu casglu data yn ymwneud ag anabledd a digartrefedd, gan gynnwys y gwaith casglu data a ohiriwyd oherwydd y pandemig.<br>• Manylion ymgynghoriad a gynhelir cyn bo hir ar y Ddeddf Rhentu Cartrefi a llety dros dro.<br>• Gofyn am fewnbwn gan Lywodraeth Cymru ar gaffael arbenigwyr ar ganllawiau ynglŷn â pha gyrff cyhoeddus y gellid eu cynnwys ar y rhestr dyletswydd i gyfeirio.<br>• O ran y Ddeddf Rhentu Cartrefi yn ceisio eithrio llety gwely a brecwast, rhoi'r manylion diweddaraf o'r ymgynghoriad i'r Panel. | Fel y mae'r diweddariadau ar gael |
| Emily James | Rhannu â'r Panel sut a pha fath o ddata y mae Cyngor Sir Penfro yn eu darparu i Lywodraeth Cymru. | 24.04.2023 |
| Emily James, Angela Bowen, Ashleigh Stevens, Jim McKirdle | Rhoi arweiniad i'r Panel ar argymhelliad y dylai pob awdurdod lleol gael cofrestr tai hygyrch, gan gynnwys pa wybodaeth fyddai ynddi a beth y mae angen iddi ei wneud, gan osgoi unrhyw ganlyniadau anfwriadol. | 1 wythnos cyn y cyfarfod llety dros dro ac addasrwydd 10.05.2023 |
| Suzanne Fitzpatrick | Yn ystod Cyfarfod 8 ar gyfiawnder troseddol, dychwelyd at y pwynt y gall landlordiaid cymdeithasol cofrestredig fod yn gyndyn o gymryd risg pan fydd yn fater o ddod o hyd i lety i bobl â phroblemau defnyddio sylweddau oherwydd eu bod yn ofni cosbau troseddol drwy'r Ddeddf Camddefnyddio Sylweddau. | Cyfarfod 8, 24.04.23 |

## 6. Unrhyw Fater Arall

Mae rhaglen cyfarfodydd y dyfodol wedi'i had-drefnu. Caiff y cyfarfod dyraniadau ei symud o ddechrau mis Mai i ddiwedd mis Mehefin, a chaiff cyfarfod dechrau Mai ei neilltuo i lety dros dro ac addasrwydd, yn cael ei gefnogi gan nodyn cyngor gan LD. Bwriedir cynnal cyfarfod ar reoleiddio a

gorfodi ganol mis Mai fel cyfarfod ar wahân heb fod yn rhan o'r cyfarfod cryno wyneb yn wyneb ar 16 Mehefin.

Bydd AR yn dosbarthu'r rhestr ddiwygiedig o gyfarfodydd y dyfodol a dwy ddolen bleidleisio Doodle er mwyn canfod pryd mae'r Panel ar gael ar gyfer y ddau gyfarfod arfaethedig ym misoedd Mai a Mehefin.

Mae'r rhaglen newydd hon yn ymestyn gwaith y panel o bythefnos.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ddod i'r cyfarfod wedi paratoi cystal ac â syniadau pendant i symud pethau yn eu blaenau.

| Aelod(au) y Panel | Cam Gweithredu | Amserlen |
|---|---|---|
| Abi Renshaw | Anfon ebost at y Panel yn syth ar ôl y cyfarfod yn cynnwys rhestr o'r dyddiadau arfaethedig ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol, gan gynnwys rhifau'r cyfarfodydd, dyddiadau, amseroedd a phynciau i'w trafod. | Ar unwaith |
| Pawb | Cyfle i wneud sylw ar y rhaglen o gyfarfodydd y dyfodol a ddosberthir drwy ebost gan AR yn fuan ar ôl y cyfarfod. | Ar unwaith |
| Abi Renshaw | Dadansoddi'r bleidlais Doodle a chael dau ddyddiad ym misoedd Mai a Mehefin ar gyfer Cyfarfod 10: Rheoleiddio a gorfodi a Chyfarfod 5.2: Dyraniadau a throi allan. | 12.04.2023 |

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Zoom ddydd Llun 24 Ebrill 2023.**